# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

# BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN PAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS 7.30 y.h. NOS LUN 3ydd MAWRTH 2025.

### 1. CROESO

Croesawyd y Cadeirydd, Cynghorydd John EVANS, pawb i'r cyfarfod yn enwedig Mrs Gwawr Thomas oedd wedi dangos diddordeb yn yr hysbysiad i fod yn Cynghorydd Cymunedol ac oedd yn bresennol fel sylwedydd.

Cyflwynodd y Clerc Mr James Wilde, Hospis Dewi Sant, Llandudno.

### 2. CYFLWYNIAD GAN MR JAMES WILDE

Siaradod James am hanes sefydlu Hopis Dewi Sant a'r gwasaneth mae'r Hopis yn rhoid i'r cleifion ag eu teuluoedd. Eglurodd James y gwaith a'r ymdrech oedd yn angenrheidiol i'r Hospis aros as agor. Ar diwedd y cyflwyniad atebodd James gwestiynnau can y Cynghorion.

Rhoddwyd ddiolch i James gan y Cynghorydd John Evans am gyflwyniad diddorol ag addysgiadol.

### 3. YN BRESENNOL

Y Cynghorion John EVANS, Irwedd GRIFFITHS, Glena HUMPHREY, Goronwy R. WILLIAMS, D. Gwyn JONES, Hefin WILLIAMS, Cynghorydd y Sir - Ifor G. LLOYD Clerc – Mel JONES a Mrs Gwawr Thomas.

### 4. YMDDIHEURIADAU

Cynghorion Gwenda DAVIES, Gethin OWEN, Bryn JONES

### 5. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a

wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Roedd datganiad hanesyddol o ddiddordeb mewn materion cynllunio gan y Cynghorion Hefin WILLIAMS, Glena HUMPHREY a D. Gwyn JONES. Roedd y materion yma ddim yn cael ei trafod yn y cyfarfod achos mae'r ceisiadau yn cael ei ystyried gan Adran Cynllunio Sir Gonwy.

## 6. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3ydd Chwefror 2025 (Cynnig – Cynghorydd Glena Humphrey ac eilwyd gan y Cynghorydd Goronwy WILLIAMS)

## 7. MATERION YN CODI

Roedd dim materion yn codi.

## 8. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod ddod i ddod i ben 20fed Chwefror 2025.

**Dod i ben 20fed Chwefror 2025**

| | |
|---|---|
| **Cyfrif Cymunedol** | = £2,938.15 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian i Mewn | = DIM |
| Arian Allan | = £570.12 (Cyflog y Clerc) |
| | = £142.40 (HMRC cyflog y Clerc) |
| | = £35.00 (Aelodaeth ICO) |
| | = £5.00 (Costau Banc) |
| | = £86.28 (Anfoneb BT) |

**CYFANSWM - £838.80**

**Cyfrif Cymunedol** = £2,099.35(Cludwyd Ymlaen)

**Cyfrif Busnes** = £4,052.66 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan = DIM
Arian i Mewn = DIM

**Cyfrif Busnes** = £4,052.66 (Cludwyd Ymlaen)

**Cyfanswm = £6,152.01**

Nododd yr aelodau y sefyllfa ariannol a'r adroddiad banc fel a restir uwchben.

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau/ceisiadau a restrir isod angen ei talu:

£86.28 BT – Anfoneb misol WiFi Betws a Llanelian

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfonebau yma.

## 9. GOHEBIAETH

### Derbynwyd

1. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc
2. Gohebiarth gan Cyngor Sir Conwy ynglyn a cyllid y Cyngor Sir – Cyngorydd Ifor Lloyd yn mynd i ddiweddaru
3. Gwahanol rhybydd am y tywydd gan SP Energy
4. Gwybodaeth fod Ffordd Dolwen, Betws yn Rhos ar gau 0930 – 1530 9/4/25
5. Gohebiaeth gan Cyngor Sir Conwy i'r Cyngor Cymunedol uchafbwyntio ffyrdd yn yr ardal sydd angen ei atgyweirio. Y gwybodaeth ei eisio erbyn 7/3/25. Y mater i gael ei drafod yn hwyrach yn y cyfarfod

### Anfonwyd

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
2. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 10. GRANTIAU

### a. Ceisiadau i'r Cyngor

1. Y Clerc yn diweddaru ei fod wedi ysgrifennu i Theatr Bara Caws I egluro na fedwrn gefnogi ei cais am grant achos ae y praesept am y flwyddyn nesaf wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ac mae y Cyngor hefyd yn awyddus cefnogi materion lleol
2. Wedi clywed y cyflwyniad gan James Wilde roedd cytundeb unfrydol i rhoid grant o £200.00 I Hospis Dewi Sant.

### b. Ceisiadau gan y Cyngor

Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

Fydd yn gofyn rhoid cais i mewn yn y dyfodol i atgyweiro cae chwarae Betws yn Rhos.

## 11. CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/52316** **Ymgeisydd: Ms Delyth Wanklyn**

Cynllun: Estyniad unllawr croes i ochr ddeheuol adeilad amaethyddol presennol

Safle: Field 5446 Abergele Road Betws Yn Rhos Abergele Conwy LL22 8AL

Roedd dogfennau y cais cynllunio wedi cael ei gweld. Wedi trafod y mater roedd gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad i’r cais. Y Clerc i ysgrifennu i’r Adran Gynllunio

**<u>CAIS NEWYDD</u>**

**Cyfeirnod: 0/52339** **Ymgeisydd: Ywain Williams**

Cynllun: Dymchwel sied bresennol a chodi estyniad deulawr yn ei lle i ddarparu ystafelloedd gwely, ystafell amlbwrpas a garej ar y llawr gwaelod ynghyd â chegin cynllun agored ar y llawr cyntaf.

Safle: Ael Y Bryn Ffordd Llanelwy Betws Yn Rhos LL22 8AN

Roedd dogfennau y cais cynllunio wedi cael ei gweld. Wedi trafod y mater roedd gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad i’r cais.Y Clerc i ysgrifennu i’r Adran Gynllunio

**Cyfeirnod: 0/52242** **Ymgeisydd: Rhys and Rosie Jones**

Cynllun: Estyniad deulawr i'r ochr ac estyniad unllawr i'r cefn, ynghyd â rhai addasiadau mewnol.

Safle: Pencraig Pencraig Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT

**Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio**

Gan for y cais yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio roedd dim trafodaeth am y cynllun ac nid oedd rhaid i’r Cynghorydd D. Gwyn Jones oedd wedi datgan diddordeb adael yr ystafell.

**Cyfeirnod: 0/52273** **Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt**

Cynllun: Llwybr fferm at siediau amaethyddol a chafn gwair (Cymeradwyaeth Amaethyddol Ymlaen Llaw)

Safle: Aelwyd Uchaf Peacful Mountain Farm Cil Llidart Road Betws yn Rhos Conwy LL22 8AG

**Y cais wedi cael ei wrthod gan yr Adran Gynllunio. Eisio manylion y deunyddiau fydd yn cael ei defnyddio yn y cynllun.**

**Cyfeirnod: 0/52229** **Ymgeisydd: Mr Hefin Williams**

Cynllun: Pit slyri newydd i gefnogi stoc gyfredol y fferm yn unol â'r deddfwriaethau diweddaraf

Safle: Caeau Bedw Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EE

**Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio**

Gan for y cais yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio roedd dim trafodaeth am y cynllun ac nid oedd rhaid i’r Cynghorydd Hefin Williams oedd wedi datgan diddordeb adael yr ystafell.

**Cyfeirnod: 0/52175** **Ymgeisydd: Mr Berwyn Jones**

Cynllun: Caniatâd amlinellol i godi annedd ar gyfer menter wledig newydd ar dir ym Mryn Ffanigl Ganol, Abergele

Safle: Bryn Ffanigl Ganol Bryn Ffanigl Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8NF

**Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio**

Gan for y cais yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio roedd dim trafodaeth am y cynllun ac nid oedd rhaid i'r Cynghorydd Glena Humphrey oedd wedi datgan diddordeb adael yr ystafell.

**Cyfeirnod: 0/52145** **Ymgeisydd: Mr & Mrs Davies**

Cynllun: Lagwn Slyri Amaethyddol Arfaethedig

Safle: Peniarth Fawr Abergele Road Betws Yn Rhos LL22 8AE

**Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio**

**Cyfeirnod: 0/52118** **Ymgeisydd: Mr Dewi Jones**

Cynllun: Mast monitro meteorolegol 80m dros dro gydag amddiffyniad rhag mellt (gyda'r uchder cyffredinol yn ddim uwch na 80.4m) am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad y gweithrediad cyntaf, i gofnodi data ar yr adnodd gwynt sydd ar gael ar y safle.

Safle: Tir Pori Amaethyddol i'r De o Fynydd Llanelian

**WEDI CAEL EI GYMERADWYO GAN YR ADRAN GYNLLUNIO**

Roedd diweddariad fod apel wedi bod yn llwyddianus i adeiladu tyrbine gwynt hefo taldra o 86.5 medr yn Fferm Pen y Bryn, Trofarth, Betws yn Rhos LL22 8BE

Mae’r lleoliad allan o ardal y Cyngor Cymunedol ond ar ein ffin a dyma y rheswm am y gwybodaeth.

## 12. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Mae adroddiad Archwiliad Cymru yn cael ei ddisgwyl. Mae hyn yn debyg i ambell o Gyngorhau Cymunedau eraill.

## 13. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Rhoddodd Cynghorydd Ifor Lloyd ddiweddariad fod wedi bod yn benderfyniad anodd ofnadwy i cytuno cyllideb y Cyngor Sir am y flwyddyn nesaf.Roedd y Cyngor Sir wedi canolbwyntio cadw buddsoddiad i gofal yr henoed a plant ifanc yn ysgolion y Sir. Roedd y Cynulliad wedi codi ei cylliden I’r Cyngor o 3.6% oedd wedi golygu fod tal cymundeol wedi ei lleihau i 8.95%

Yn y drafodaeth roedd barn fod y fformiwla ariannu yn niweidiol i Gyngor Conwy. Roedd angen edrych ar newid y broses.

## 14. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

### a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.

Roedd y Clerc wedi cyfarfod Mr David Dudley – Arolygydd Caeau Chwaraeon y Cyngor Sir – yn Cae Chwarae Betws yn Rhos dydd Iau 6ed Chwefror 2025.

Roedd Mr Dudley wedi gallu atgyweiro offer yn y Cae Chwarae. Mae Mr Dudley yn fodlon atgyweiro yr offer yn Caeau Chwaraeon Betws yn

Rhos a Llanelian. Fydd ddim rhaid ystyried yr amcangyfrif gan cwmni G.L Jones yn symud ymlaen.

Mae adroddiad yr arolygiad blynyddol yr offer yn Caeau Chwaraeon Betws yn Rhos a Llanelian wedi cael ei baratoi. Mae popeth yn ‘wyrdd’ ac yn ddiogel iw defnyddio. Mae gwaith man eisio sylw.

Mae Mr Dudley wedi cynghori edrych ar caeau chwaraeon plant bach cyn gwneud penderfyniad dewis offer.

1. Cae Chwarae Bodlondeb, Conwy
2. Cae Chwarae, Ffordd Penmaen, Conwy
3. Cae Chwarae, Owain Glyndwr, Bae Cinmel.

Roedd cytuniad i’r Clerc ymweld ar y Caeau Chwarae ac i yrru lluniau o’r offer i’r Cynghorion i cynorthwyo gwneud penderfyniad.

b. **Diffibrilwyr.**

Mae padiau dau diffibrilwr eisiau ei newid yn mis Mawrth a wedyn fyddent i gyd mewn dyddiad tan mis Mehefin 2026. Mae y padiau gan y Clerc.

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau/Meinciau Ffordd Abergele**

Mae Hilda Gibbs yn mynd i edrych ar ol y potiau blodau a’r meinciau yn symud ymlaen.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos/Llanelian**

Roedd Cynghorydd John Evans wedi diweddaru eisioes fod Pwyllgor Eglwys Betws yn Rhos yn edrych at atgyweiro adeilad tu allan i’r eglwys fel toiled.Fydd diweddariad ar gael pan fydd cynnydd yn y planniau. Mae’r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi Pwyllgor yr Eglwys.

Diweddariad gan y Clerc fod y Cyngor Sir yn ymwybodol fod y Cyngor Cymundeol am gymeryd drosodd rhedeg y toiledau yn Llanelian. Mae rhaid i'r Cyngor Sir assesu y toiledau ac fydd y papurau yn cael ei paratoi i'r proses gael ei gwbwlhau. Y Clerc i gysylltu hefo'r Cyngor Sir i cael dyddiad cwbwlhau y proses.

f. **Materion arall**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632. Mae asesiad fod y gwaith yn ddi-frys.

Ynglyn a'r mater gododd Cynghorydd Irwedd Griffiths ar y15fed Gorffennaf am dro cul ar y ffordd rhwng Nant y Cohl a Bryn Derwen mae y gwaith yn dal i ddisgwyl.

Ynglyn  cwynion wedi cael ei derbyn am cyflwr Ffordd Dolwen o Dolgau i Dolwen ac eisio lori i ysgubo'r ffordd. Mae y Cyngor Sir wedi cadarnhau fyddent yn gwneud y gwaith.

Mae cwyn wedi cael ei dderbyn fod tir ar ochr y ffordd B5381 rhwng Pen Refail a Hunters Hamlet wedi disgyn i'r lon. Y Clerc wedi ysgrifennu i'r Cyngor Sir

Ynglyn a cwynion for tir yn y safle isod wedi cael newid defnydd a yn bosib eiso cynllun i newid ei defnydd mae y Clerc wedi cael yr ymateb isod gan Mr Simon Richardson, Cyngor Sir Conwy

1. **ENF/2025/5568** Coed Ty Brith, Ffordd Abergele, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio fel Parc Cwn a Tepees yn y safle

   Roedd dim tystiolaeth for Parc Cwn yn y lleoliad ond roedd trac a llawr caled wedi ei osod oedd yn erbyn rheolau cynllunio. Roedd container a carafan ar y tir. Mae y Cyngor yn mynd i gysylltu a'r perchennog i weld bydd fydd ei bwriad hefo'r tir ac i'w cynghori fod rhaid cael caniatad cynllunio i'r trac a llawr caled.

2. **ENF/2025/5569** Tir ger Nant Uchaf, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio i gadw peiriantau trwm.

Mae adeilad newydd ar y tir sydd angen caniatad cynllunio. Roedd amryw offer ffermio a cloddiwr bach ar drelar. Roedd tystiolaeth fod y tir yn cael ei ddefnyddio i ffermio – roedd lloiau yn yr adeilad. Mae y Cyngor yn mynd i gysylltu a'r perchennog i weld bydd fydd ei bwriad hefo'r tir ac i'w cynghori fod rhaid cael caniatad cynllunio

Wedi cael gohebiaeth gan Cyngor Sir Conwy cafwyd trafodaeth i uchafbwyntio ffyrdd yn yr ardal sydd angen ei atgyweirio. Mae y canlyn eisiau ei atgyweirio:

1. Ffordd y Mynydd, Betws yn Rhos
2. Ffordd Abergele, Betws yn Rhos rhwng cyffordd Minafon hyd at ardal Foxhole, Abergele
3. B5383 Cyffordd - Ffordd Dolwen a'r lon rhwng Fferm Solar Llanelian, a Ysgol y Plas, Llanelian
4. Ysgubor Newydd i Ffordd Teyrdan, Llanelian
5. Ffordd y Groes – lawr yr allt o ganol y pentref
6. Allt y Waun, Dolwen
7. Lon rhwng between Ty'n Ffynnon (Ardal Dawn) a Ffordd Bryncar i cyffordd y B5381
8. B5381 drwy pentref Betws yn Rhos
9. Croesffordd Wern Bach A548 I cyffordd Nant yr Efail B5381
10. Bryn Helyg i cyffordd Bont Melin Person, Dolwen
11. Ffordd Pen Bryn i Brynffanigl Uchaf (Cyffordd B5381 i cyffordd Ffordd Abergele)

Y Clerc i ysgrifennu I Cyngor Sir Conwy hefo copi i Cynghorydd Ifor Lloyd.

## 15. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Y cais praesept oedd am £18,000 hefo £2,387.76 yn cael ei ddefnyddio o cyfrif Banc y Cyngor Cymunedol.

Fydd y Clerc yn diweddaru pan fydd ateb gan y Cyngor Sir.

**16. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

**17. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.

Mae ateb wedi ei gael gan BT am chwaneg o wybodaeth am yr oedi mewn gosod WiFi yn y neuadd o Ebrill 2024 tan Awst 2024. Roedd y gwaith wedi cael ei ganslo ddwy waith am rhyw rheswm.

Mae yr holl wybodaeth gan y Clerc ac fydd E bost yn cael ei yrru i'r ombwdsmon i edrych am iawndal.

**18. Y GADLAS**

Roedd erthygl yn y Gadlas am agoriad swyddogol Neuadd Gymunedol Llanelian.

Dim awgrymiad am erthygl arall.

**19. UNRHYW FATER ARALL**

Mae cwynion wedi cael ei dderbyg gan Gynghorwyr fod sied yn edrych fel ei bod yn cael ei defnyddio fel lle byw ac mae'r safe yn fler ofnadwy.
Mae y sied ar y ffordd cul o'r B5381 am North Wales Stoves ac mae y safle ar y chwith cyn North Wales Stoves.

Y Clerc i ysgrifennu i Adran Gynllunio Cyngor Sir Conwy.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 8.50 yh.

CADEIRYDD …………………………………………………        John EVANS

CLERC………………………………………………………………… Mel Jones

DYDDIAD: 7 fed Ebrill 2025